Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod (rhithiol) misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 4ydd o Fawrth 2021.

1 **Presennol** Richard Williams (Cadeirydd) Gwilym Evans – Prenteg, Edward Evans Richard Parry – Bryncir, Clifford Williams John Jones – Garndolbenmaen, Megan Lloyd Williams Amanda N Owen – Golan, Huw Pritchard Delyth Evans Manon Jones Evans – Pentrefelin, Iddon Edwards, Dafydd Thomas, Gwenno Emlyn Huws – Penmorfa.

2 **Ymddiheuriadau** - Anwen Humphreys (dim mynediad i offer TG, cyswllt rheolaidd ar y ffôn), Dylan Pritchard, Cynghorydd Alwyn Gruffydd.

Cyn cychwyn y cyfarfod, cyfeiriwyd at farwolaeth Dewi Pennant Owen, Bron y Gadair, Pentrefelin. Anfonwyd cofion at ei deulu.

3 **Ddim yn bresennol** - neb.

4 **Datgan buddiant** – Eitem 14 Cynllunio – EE.

5 **Cywirdeb y cyn-gofnodion** – Cofnodion 7/1/21 Megan Lloyd Williams yn cynnig ei bod yn gywir a Huw Pritchard yn eilio.

Cofnodion 4/2/21. Y diweddar John Edwards wedi cynrychioli ardal Treflys am ddegawdau. Eitem 13 Cynllunio Beudy Mawr Erw Suan, yr eiddo yn ward Prenteg. Clerc i holi Cyngor Gwynedd am fap o'r wardiau a rhestr etholwyr. Eitem 9 Adroddiad Pentrefi – Prenteg. Y cwlferi dan sylw ar gau yn barhaol. Clerc i holi beth yw'r rheswm am hyn.

Cyrhaeddodd y Cynghorydd Gwenno Emlyn Huws y cyfarfod.

6 **Materion yn codi o'r cyn-gofnodion**

<u>Materion Priffyrdd mis Rhagfyr</u>
Dŵr yn cronni man parcio uwchlaw Clenennau - y mater wedi ei gyfeirio at sylw Dŵr Cymru Cyf.
Chwarel Bryncir – y mater wedi ei gyfeirio at Asiantaeth Cefnffyrdd.
Arwyneb Lôn Llecheiddior Uchaf – mae'r ffordd ar hyn o bryd dan orchymyn cau ffordd dros dro i bob math o drafnidiaeth.

Materion Priffyrdd mis Ionawr

Ail osod polion adlewyrchu Garndolbenmaen – ymgymerir â gwaith ar sail blaenoriaeth. Yn ddiweddar, mae blaenoriaeth wedi cael ei roi i lanhau ac adfer difrod ar ôl cyfnod o law trwm.

Canclwm ar ochor y lôn wrth Plas Gwyn a Lôn Tabor, Pentrefelin – mae hwn wedi cael ei gofnodi.

Modurdy ym maes parcio'r Cyngor, Prenteg – y mater wedi ei gyfeirio at Adran Eiddo ac i'r Tîm Rheolaeth Adeiladu.

Materion Priffyrdd mis Chwefror – heb dderbyn ateb.

Arwyddion Matrics

Ar y cyd â Swyddfa Ardal Meirionnydd, mae adroddiad yn cael ei baratoi gydag awgrymiadau adnewyddu ac uwchraddio'r arwyddion solar presennol. Mae gwireddu unrhyw welliannau a chynlluniau adnewyddu yn ddibynnol ar sicrhau ffynhonnell arian cyfalaf neu gyllideb ychwanegol.

Rhybuddion Cau Ffordd

Derbyniwyd ateb gan yr Adran Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Trafnidiaeth a Chefn Gwlad. Eglurwyd mai'r asiantaeth sy'n gwneud y gwaith fydd yn paratoi cyfarwyddiadau dargyfeirio, ond fod swyddogion Cyngor Gwynedd yn gwirio'r wybodaeth. Mae'n rhaid i'r ffordd fod os yn bosib o'r un dosbarth â'r ffordd sydd ar gau neu hyd yn oed yn well.

Yn ogystal, derbyniwyd ymddiheuriad mewn perthynas â chywirdeb enwau tai ac eiddo a gafodd eu heffeithio pan gaewyd y ffordd ger Tyrpeg y Traeth - Glan y Don, Nantmor.

Parcio Garndolbenmaen

Nid yw'r ymgynghoriad gyda'r trigolion lleol wedi cymryd lle. Bwriedir gosod hysbysebion i fyny yn y pentref.

Llwybrau Cyhoeddus Llwybr Rhif 37 Cefn Meusydd Uchaf i Hendregadredd - llifogydd diweddar wedi difrodi'r llwybr ac angen ail osod y llechi. Perchennog y cae yn fodlon i bobl gerdded ychydig i mewn i'r cae. Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd yn holi os yw'r Cyngor Cymuned yn cytuno gyda'r awgrym. Penderfynwyd derbyn hyn fel datrysiad dros dro, ond bod angen ail osod y llechi sydd ar y llwybr.

Map o Ward Dolbenmaen

Adroddodd y Clerc ei bod wedi, wrth sefydlu'r wefan, cysylltu gyda Swyddog Cofrestru Etholiadol Cyngor Gwynedd i holi am fap o'r Ward. Cyfeiriwyd hi at Swyddog Gwybodaeth a Gwasanaethau'r Wefan Cyngor Gwynedd. Cafwyd linc at fapiau yn dangos ffiniau wardiau, ond ei bod hi a Cymru1 wedi methu lawr lwytho'r map. Ers hynny, mae wedi gofyn i'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy os oes ganddo fap o Ward Dolbenmaen. Clerc i wneud ymholiadau pellach.

7 **Mynwentydd**

Tendr Torri Gwair - adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn manylion o'r gwaith sydd angen ei wneud ym Mynwent Golan a Phenmorfa. Penderfynwyd trefnu cyfarfod o is-bwyllgorau Eiddo a Mynwentydd nos Iau 11eg o Fawrth.

8 **Llwybrau Cyhoeddus**

Ty'n Ffridd – Ffridd Newydd Garndolbenmaen – eithin a dŵr ar y llwybr.

Bont Wern – Pont Faen, Pentrefelin – brigau wedi plygu drosodd ac yn wlyb o dan droed.

Clerc i gysylltu gydag Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd.

9 **Adroddiad Pentrefi**

Pentrefelin

Yn dilyn damwain diweddar wrth Fynydd Du, dinistriwyd rhan o'r wal. Cerrig yn parhau i fod ar y llwybr troed.

Clerc i gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd a chysylltu gyda Chlerc, Cyngor Tref Criccieth.

Garndolbenmaen

Biniau a bocsys glas yn cael ei gadael ar ddarn o dir a adnabyddir fel 'Y Green'. Adroddwyd hwn wrth Dîm Gorfodaeth Stryd yn Nhachwedd 2020. Clerc i gysylltu eto.

Penmorfa

Clerc i gysylltu gydag Adran Glanhau Ffyrdd Cyngor Gwynedd i ddiolch iddynt am y gwaith safonol a wnaethpwyd wrth glirio dail o'r lôn fawr i lawr i Dy'n Llan a hen lôn Penmorfa.

Bryncir

Bont Felin - adroddwyd fod Cyngor Gwynedd wedi camddeall y cais gan y Cyngor Cymuned. Clerc i gysylltu i drefnu cyfarfod safle ar frys gyda swyddog o'r Adran Briffyrdd.

10 Penodi Archwilydd Mewnol

Penderfynwyd adnewyddu'r cytundeb gydag A Hughes-Jones a'u Cwmni. Megan Lloyd Williams yn cynnig a John Jones yn eilio.

11 Cae Chwarae Penmorfa

Adroddwyd fod Pwyllgor y Cae Chwarae wedi derbyn grantiau gan –

Parc Cenedlaethol Eryri o dan gynllun Llefydd Lleol Natur i sefydlu gardd gymunedol;
Cist Cyngor Gwynedd – offer chwarae.

Llongyfarchwyd y pwyllgor ar ei gwaith caled i sicrhau'r grantiau.

12 Ffordd Mynwent Prenteg

Penderfynwyd cael pris gan 3 contractwr ar gyfer gwella arwyneb y ffordd o'r grid gwartheg at y lôn fawr.

Cytunodd y Cynghorydd Gwilym Evans i gyfarfod gyda'r contractwyr i drafod y gwaith.

13 **Gohebiaeth**
Llythyrau Cyngor Gwynedd - Rhybudd cyntaf cau ffordd ddi-ddosbarth gyferbyn â'r eiddo a adwaenir fel Llecheiddior Uchaf, Bryncir. 19/03/21
Ychwanegwyd Cau ffordd ddi-ddosbarth gyferbyn â'r eiddo a adwaenir fel Glan Don, Garndolbenmaen. 15/03/21.
Gohebiaeth ychwanegol

a Llywodraeth Cymru – gwaith adnewyddu'r lôn A487 Penmorfa – 24/02 – 12/03/21. Rhannwyd 17/02/2021.
b Unllais Cymru – Hyfforddiant mis Mawrth – rhannwyd 19/02/2021.
c Unllais Cymru – Newyddlen Diwygio Etholiadol.
ch Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adolygu Fframwaith Taliadau Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref.
d Cylch yr Iaith – Llythyr er gwybodaeth gan Howard Huws Cydlynydd Ymgyrch Dwristiaeth.
dd Rhoddion Ariannol llythyrau o ddiolch - Neuadd Garndolbenmaen, Canolfan Pentrefelin, Neuadd Penmorfa, Pwyllgor Mynwent Tai Duon, Grŵp Apêl Uned Cancr a Haematoleg, Ysbyty Gwynedd, Elusen Ambiwlans Awyr Cymru.

14 **Cynllunio**
Rhestrau – 25/1, 1/2, 8/2, 19/2/2021.

Ceisiadau Cynllunio

C21/0189/36/DT Bryn Efail Isaf, Bryncir. Cais ar gyfer dymchwel ystafell haul ar flaen yr eiddo ynghyd a chodi estyniad unllawr i ochr y tŷ a phortsh. Dim gwrthwynebiad.

15 **Materion Ariannol**

Ceisiadau am arian:

Monitro'r Gyllideb: Dim gorwariant yn erbyn y gyllideb a osodwyd.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	=	£ 253.33
Ffôn	=	£ 10.00
Cyfrifiadur	=	£ 15.00
HMRC	=	£ 63.20
Y Ffynnon	=	£ 28.00
Costau Gweinyddol	=	£ 150.05
Grŵp Cymunedol Cae Chwarae Penmorfa	=	£ 160.00
Parc Cenedlaethol Eryri	=	£ 120.00
Gardencraft Tremadog	=	£7,464.00
J T Williams Garden Machinery	=	£1,056.00
Carol Garddio	=	£ 300.00

Rhoddion Ariannol = £3,300.00

Derbyniadau - dim.

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,843.89 Cyfredol £10,367.86

16 **Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg/Gwefan**

Wasg – Cofion at teuluoedd y diweddar John Edwards a Dewi Pennant Owen, Cais Cynllunio, Rhybuddion Cau Ffordd, Materion Priffyrdd.

Gwefan – Cofnodion mis Ionawr.